**ELL 10-02(mins)**

**Cofnodion y Pwyllgor Addysg a Dysgu Gydol Oes**

**Dyddiad:** 22 Mai 2002

**Amser:** 2.00pm

**Lleoliad:** Ystafelloedd Pwyllgora 3 & 4, Adeilad y Cynulliad Cenedlaethol

**Presenoldeb:**

**Aelodau**

| | | |
|---|---|---|
| Gareth Jones, Cadeirydd | Plaid Cymru | Conwy |
| Lorraine Barrett | Llafur | De Caerdydd a Phenarth |
| Mick Bates | Democratiaid Rhyddfrydol | Sir Drefaldwyn |
| Cynog Dafis | Plaid Cymru | Canolbarth a Gorllewin Cymru |
| Jane Davidson, Gweinidog o'r Cynulliad | Llafur | Pontypridd |
| Janice Gregory | Llafur | Ogwr |
| Helen Mary Jones | Plaid Cymru | Llanelli |
| Huw Lewis | Llafur | Merthyr Tudful a Rhymni |
| Jonathan Morgan | Ceidwadwyr | Canol De Cymru |
| Alun Pugh, Dirprwy Weinidog | Llafur | Gorllewin Clwyd |

**Ymddiheuriadau**

Dim

**Dirprwyadau**

Dim

**Ysgrifenyddiaeth y Pwyllgor**

| | |
|---|---|
| Chris Reading | Clerc |
| Holly Pembridge | Dirprwy Glerc |

**Swyddogion**

**yn Bresennol:**

| | |
|---|---|
| Richard Davies | Cyfarwyddwr, Adran Hyfforddiant ac Addysg (DfTE) |
| Elizabeth Taylor | Pennaeth, Adran Rheoli Ysgolion |
| Alan Lansdown | Pennaeth, Adran Cefnogi Disgyblion |
| Mike Harper | Pennaeth, Adran Dysgu ac Arweinyddiaeth |
| Keith Davies | Pennaeth, Adran Safonau a Pherfformiad |
| Mei Lin Ng | Adran Cefnogi Disgyblion |
| Tony Widdrington OBE | Swyddfa'r Cwnsler Cyffredinol |

**Yn Bresennol:**

| | |
|---|---|
| Catherine Hester | Ymgynghorydd Cwricwlwm – Oxfam Cymru |
| Claire Fowler | Ymgynghorydd Polisi Addysg – RSPB Cymru |
| Wil Thomas | Ymgynghorydd Dysgu – Asiantaeth yr Amgylchedd |

**Hefyd yn Bresennol**

| | |
|---|---|
| Catrin Redknap | Ymgynghorydd arbenigol y Pwyllgor ar yr adolygiad o'r Iaith Gymraeg mewn Addysg |

| | |
|---|---|
| | |

**Datgan Buddiant**

| | |
|---|---|
| Cynog Dafis | Athro Cofrestredig; ei wraig yn Athrawes Gofrestredig |
| Jane Davidson | Athrawes Gofrestredig; ei g•r yn ddarlithydd coleg ac yn aelod o Bwyllgor Gwaith NATFHE |
| Gareth Jones | Athro Cofrestredig; Aelod o Gyngor Bwrdeistref Sirol Conwy; Aelod o Lys Prifysgol Cymru |
| Huw Lewis | Athro Cofrestredig |
| Mick Bates | Athro Cymwysedig; ei wraig yn Bennaeth Ysgol, Arolygydd Ysgolion, aelod o ACCAC a phwyllgorau Estyn |
| Jonathan Morgan | Llywodraethwr Ysgol; Aelod o Lys Prifysgol Cymru |
| Lorraine Barrett | Llywodraethwr Ysgol |
| Alun Pugh | Ei wraig yn ddarlithydd coleg |

**Sylwadau Agoriadol y Cadeirydd**

Croesawodd y Cadeirydd y Pwyllgor ac aelodau o'r cyhoedd i'r cyfarfod a gofynnodd i'r Aelodau a oedd unrhyw ddatganiad buddiant newydd. Nid oedd.

**Eitem Un: Adroddiad y Gweinidog**

***Papur: ELL 10-02(t.1)***

1. Cyflwynodd y Gweinidog ei hadroddiad ynghyd â datganiad llafar i'r Pwyllgor am Gyngor Cenedlaethol ELWa. Mae copi o hwn yn Anecs A.
2. Gwahoddodd y Cadeirydd yr Aelodau i holi'r Gweinidog ar ei hadroddiad. Codwyd y materion canlynol:

- **Dadrithiad** – Yn gyffredinol, yr oedd Aelodau yn croesawu sefydlu'r Grwp Gorchwyl a Gorffen newydd ond holwyd y Gweinidog ynghylch amseru'r broses a'r goblygiadau i adnoddau a fyddai'n deillio o'r cynigion posibl. Dywedodd y Gweinidog y byddai'n cymryd camau priodol cyn gynted ag y byddai'n derbyn yr adroddiad. Yr oedd angen datblygu gwell arweiniad a chynyddu atebolrwydd penaethiaid a llywodraethwyr ysgolion. Byddai diwygiadau yn cael eu gwneud i Gylchlythyr 3/99. Dywedodd y Gweinidog y byddai'n gwneud datganiad ar y cwricwlwm 14-19 yn y Cyfarfod Llawn ar 30 Mai 2002. Dywedodd y Gweinidog ei bod wedi darparu £11 mewn Grantiau Cynnal Addysg a Hyfforddiant (GEST) - £1m yn fwy na'r llynedd. Byddai'r Gweinidog yn ymweld â mwy o ysgolion yn ystod tymor yr haf i atgoffa rhieni y dylai plant fynychu'r ysgol. Dywedodd un aelod bod cwmnïau teithio yn codi eu prisiau yn ystod tymor yr haf a bod hyn yn cyfrannu at y broblem triwantiaeth ac yn ei gwaethygu.

- **Math.Cymru** – Yr oedd aelodau yn falch o weld bod y cynllun Math.Cymru yn symud yn ei flaen wrth i Grwp Llywio gael ei sefydlu. Gofynnodd aelodau am sicrwydd y byddai peth arbenigedd mewn mathemateg a dysgu mathemateg trwy gyfrwng y Gymraeg. Derbyniwyd cadarnhad gan y Gweinidog bod y Grwp Llywio yn cynrychioli pob rhan o Gymru a'i fod â'r arbenigedd angenrheidiol. Byddai modelau ymarfer da mewn dysgu mathemateg a gwyddoniaeth cyfrwng Cymraeg yn cael eu harddangos yn Eisteddfod yr Urdd ac Eisteddfodau eraill.

- **Cynllun Addysg Coedwigaeth** –Yr oedd aelodau yn cefnogi'r cynllun hwn yn gryf a theimlwyd y dylid ei annog gan y gallai helpu i leihau dadrithiad. Credai aelodau y gallai mabwysiadu agwedd hyblyg tuag at y cwricwlwm helpu pobl ifanc i ddatblygu sgiliau ymarferol, galwedigaethol. Dywedodd y Gweinidog wrth y Pwyllgor ei bod yn cymeradwyo'r dull galwedigaethol o ddysgu. Fodd bynnag, yr oedd wedi ymweld â rhai ysgolion lle'r oedd peth dicter ymhlith disgyblion academaidd a deimlai fod ymddygiad gwael yn cael ei wobrwyo. Yr oedd angen gwneud y cwricwlwm yn fwy perthnasol i bobl ifanc. Yr oedd pob un o'r ysgolion uwchradd yr oedd y Gweinidog wedi bod yn eu gweld yn ddiweddar wedi ehangu eu cyrsiau galwedigaethol. Dywedodd y Gweinidog y byddai'n annerch y Gynhadledd Addysg Coedwigaeth i Ysgolion nes ymlaen eleni. Ychwanegodd Richard Davies (Cyfarwyddwr DfTE) bod ansawdd y ddarpariaeth yn bwysig. Gofynnodd un aelod a fyddai mwy o arian ar gael i gefnogi'r Cynllun Addysg Coedwigaeth. Atebodd y Gweinidog nad ei chyfrifoldeb hi oedd yr arian hwn a'i fod yn gorwedd gyda chyllideb y Comisiwn Coedwigaeth trwy'r Gweinidog Amaeth (Carwyn Jones AC).

- **Archwiliad y Consortia Cymunedol ar gyfer Addysg a Hyfforddiant (CCAH)** – Awgrymodd aelodau y dylai'r archwiliad hwn adolygu'r systemau (gweinyddol/staff) oedd yn cefnogi CCAH gan fod pryderon ynghylch y gallai staff ysgolion/colegau fod yn gwario mwy a mwy o amser ar fiwrocratiaeth. Gofynnwyd i'r Gweinidog sut fyddai swyddogaethau/deilliannau CCAH yn cael eu monitro a'u mesur yn y tymor hir. Atgoffodd y Gweinidog y Pwyllgor fod y CCAH yn dal i fod yn eu babandod – nad oeddent ond wedi bodoli ers blwyddyn. Ar y dechrau, yr oedd y sefydliadau noddi wedi cyflawni'r gwaith cefnogi. Ar hyn o bryd, yr oedd pob CCAH yn derbyn cymorth gweinyddol oddi wrth ELWa. Pwysleisiodd y Gweinidog bwysigrwydd CCAH gan eu bod yn rhan hollbwysig o gynllunio partneriaethau ar gyfer addysg ôl 16 yng Nghymru. Yr oedd y Gweinidog wedi gwahodd ELWa i ddatblygu model rhagoriaeth ar gyfer consortia. Gofynnodd aelodau i'r Gweinidog a allai ddarparu enghreifftiau o ymarfer da. Dywedodd y Gweinidog y byddai'n hapus i gyflwyno enghreifftiau o ymarfer da i'r Pwyllgor pan fyddai ELWa wedi casglu'r wybodaeth.

- **Cyflog Athrawon** – Gofynnodd aelodau a fyddai'r Gweinidog yn gwneud datganiad i'r Cyfarfod Llawn ar ôl i'r dystiolaeth ar ddiffygion cyllidol Awdurdodau Addysg Lleol gael ei chasglu a'i

dadansoddi. Yr oedd peth pryder na allai athrawon ddringo'r raddfa gyflogau oherwydd cyfyngiadau cyllidol. Dywedodd y Gweinidog na ddylai penaethiaid atal hawl athrawon cymwys rhag dringo'r raddfa gyflogau.

- **Monitro Cynllun Gweithredu Sgiliau a Chyflogaeth** – Teimlai aelodau y byddai diweddariad rheolaidd ar gynnydd yn fuddiol. Yr oedd y Gweinidog yn croesawu hyn a chytunodd i roi gwybodaeth gyson i'r Pwyllgor.

- **Adroddiad Rees** –Gofynnodd aelodau a oedd y Gweinidog yn bwriadu gofyn i lywodraeth y DU ddatganoli'r mater o ffioedd dysgu i'r Cynulliad Cenedlaethol. Atebodd y Gweinidog ei bod yn dal i ddisgwyl am ganlyniad adolygiad yr Adran Addysg a Sgiliau (DfES) o ffioedd dysgu ac oni fyddai Llywodraeth Cynulliad Cymru yn fodlon gyda chanlyniad yr adolygiad hwnnw, byddai'n ceisio sicrhau deddfwriaeth ar gyfer ffioedd dysgu i Gymru'n unig.

- **Cyllido Myfyrwyr Addysg Bellach (AB)** – Yr oedd peth pryder y byddai myfyrwyr AB oedd yn derbyn arian ACCESS a Grant Dysgu'r Cynulliad yn derbyn llai o fanteision o dan y trefniadau cyllido newydd. Eglurodd y Gweinidog bod cyfyngiadau cyllidol ar yr arian hwn ond bod swm o arian wedi ei neilltuo i sicrhau y byddai myfyrwyr diweddar oedd yn derbyn arian ACCESS yn parhau i gael eu cyllido.

- **Addysg Uwch** – Gofynnwyd i'r Gweinidog wneud sylw ar yr adroddiad diweddar ar Sefydliadau Addysg Uwch oedd yn amlinellu problemau eu diffygion cyllidol. Dywedodd y Gweinidog na ddaeth yr adroddiad o Gymru: adroddiad y DU ydoedd gyda darn ohono'n seiliedig ar Gyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru (HEFCW). Dywedodd y Gweinidog bod yn well ganddi drafod tystiolaeth o Gymru.

**Eitem 2: Diweddariad ar gynnydd y Panel Ymgynghorol Addysg ar Ddatblygu Cynaliadwy**

***Papurau: ADGO 10-02(t.2), (t.3) & (t.4)***

2.1 Siaradodd Claire Fowler a Catherine Hester trwy gyfrwng cyflwyniad PowerPoint a Wil Thomas trwy gyflwyno ei bapur. Ar ôl y cyflwyniadau, gwahoddodd y Cadeirydd yr aelodau i ofyn cwestiynau. Codwyd y materion canlynol mewn trafodaeth:

- Diolchodd aelodau i'r cyflwynwyr am eu cyflwyniadau ac awgrymwyd, gan fod Datblygu Cynaliadwy (DC) yn fater trawsbynciol gan y Cynulliad, y byddai pwyllgorau pwnc eraill efallai yn elwa o dderbyn cyflwyniad o'r fath. Awgrymodd y Cadeirydd y dylid dosbarthu copi i Glercod Pwyllgor eraill. ***(Gweithredu – Ysgrifenyddiaeth i ddosbarthu papurau i Glercod Pwyllgor eraill).***

- Cafwyd peth trafodaeth ynghylch y tensiwn a grëwyd trwy ledaenu DC i'r cwricwlwm tra hefyd yn gwneud y pwnc yn un y gallai disgyblion ei fwynhau. Yr oedd y cyflwynwyr o'r farn ei bod yn bwysig gwreiddio'r cysyniad am ddatblygu cynaliadwy a dinasyddiaeth fyd eang yn ethos cyfan ysgolion trwy Gynlluniau Datblygu Ysgolion. Gallai ysgolion wneud eu rhan dros DC heb sylweddoli: trwy ddefnyddio bwyd organig a/neu gynnyrch lleol. Ffactor pwysig oedd gwneud deunydd DC yn ddiddorol i ddisgyblion. Yr oedd y Fagloriaeth Gymreig yn darparu cyfleoedd newydd i ymgorffori DC fel pwnc craidd a hefyd o fewn y prif bynciau eraill.

- Soniwyd am Gerdyn Gwyrdd, lle byddai pwyntiau yn cael eu casglu am ailgylchu, a nwyddau/

gwasanaethau dymunol yn cael eu rhoi fel gwobrau. Teimlwyd bod angen cynnwys y mwyafrif helaeth o bobl ar raddfa eang yn y cwestiwn o ddatblygu cynaliadwy. Dywedwyd wrth aelodau bod angen agwedd ymarferol i weld beth y gellid ei gyflawni gydag ychydig mwy na'r adnoddau presennol.

- Cafwyd ychydig o drafodaeth am y cysylltiad rhwng gyrfaoedd (rheolaeth amgylcheddol, technoleg a pheirianneg), yr economi a DC. Clywodd y Pwyllgor fod mwy a mwy o swyddi yn cael eu creu yn y maes DC – yr oedd un o bob chwe swydd yng Nghymru yn gysylltiedig ag asiantaethau amgylcheddol. Yr oedd trafodaethau'n cael eu cynnal ar hyn o bryd rhwng ELWa a Sgiliau Dyfodol Cymru. Pan fyddai gwybodaeth ar gael, y nod wedyn fyddai denu pobl ifanc i'r mathau hyn o swyddi.

- Yr oedd rhai sylwadau ynghylch goblygiadau iechyd 'danfon plant i'r ysgol'. Dywedodd cyflwynwyr fod y Panel yn edrych ar flaenoriaethau ar gyfer gwahanol ysgolion. Fodd bynnag, byddai gwahanol gymdogaethau yn dynodi ac yn asesu ardaloedd allweddol. Yr oedd cynrychiolydd o Ysgolion Iach ar y Panel. Byddai cynllun ysgolion iach yn ategu cynllun DC.

- Diolchodd y Cadeirydd i'r cyflwynwyr a'u llongyfarch hwy a Chadeirydd y Panel, Alan Lansdown, am eu gwaith da. Byddai'r Panel a'i is-grwpiau yn symud ymlaen ar unrhyw argymhellion a wneid.

**Eitem Tri: Adolygiad Polisi – Yr Iaith Gymraeg mewn Addysg – Ystyried blaenoriaethau ac argymhellion**

***Papur: ADGO 10-02(t.5)***

3.1 Ystyriwyd papur y Clerc a'r Ymgynghorydd Arbenigol gan y Pwyllgor. Eglurodd y Cadeirydd y byddai sylwadau aelodau yn cael eu nodi a'u hymgorffori o fewn testun y papur. Codwyd y materion canlynol mewn trafodaeth:

- Cytunodd aelodau bod angen mwy o amser yn y cyfarfod nesaf (12 Mehefin) i ystyried yr argymhellion.

- Cyflwynodd y Clerc 'weledigaeth' ddrafft i'r aelodau fel rhagair i'r adroddiad. Cyflwynodd y Gweinidog rai awgrymiadau ysgrifenedig i'r Clerc ac awgrymodd aelodau eraill rai newidiadau i'r testun hefyd.

- Teimlai un aelod bod rhai elfennau ar goll o'r argymhellion a bod angen cyd-destun a strategaeth glir, ac y byddai'n cyflwyno ei awgrymiadau i'r Clerc wedyn.

- Mynegodd aelod arall bryder ynghylch defnyddio'r system addysg i atgyfnerthu newid diwylliant a newid hunaniaeth pobl. Teimlwyd bod defnydd o iaith yn cyfateb i faterion megis crefydd a sut yr oedd pobl yn gweld ethnigrwydd; byddai'n rhaid i bobl benderfynu drostynt eu hunain a byddai unrhyw newidiadau yn cael eu harwain gan y galw amdanynt.

- Cyfeiriodd aelodau at dystiolaeth gan ddisgyblion a awgrymai nad oedd y ffordd y cai'r Gymraeg ei

dysgu fel ail iaith yn cynorthwyo'r disgyblion. Yr oedd hyn yn arbennig o amlwg yng nghyfnod allweddol pedwar. Teimlwyd hefyd y gallai'r Pwyllgor edrych ar Gymraeg fel ail iaith ar wahân i'r broses arholiadau a bod y mater hwn yn haeddu ymateb polisi.

- Teimlwyd ei bod yn bwysig cynllunio'n strategol yn genedlaethol ond gan ymgorffori cyfraniad Awdurdodau Addysg Lleol (AALl) a chydnabod anghenion rhanbarthol gydag agwedd aml-wedd.

- Teimlwyd y gellid cryfhau'r adran ar Dechnoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu (TGCh). Argymhellodd y Dirprwy Gweinidog newidiadau arfaethedig awgrymol i'r Clerc.

- Gwnaed sawl awgrym gan y Gweinidog:

- Yr oedd angen pennawd ar wahân ar ôl y rhagair, yn sôn am gasglu data ar ba ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg oedd ar gael, a phatrymau dilynol.
- Yr oedd gan AALl gyfrifoldeb statudol dros ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg a Saesneg ac roedd angen cadarnhau yr AALlau o'r newydd fel yr awdurdod priodol ac annog mwy o gydweithrediad rhwng y Cynulliad Cenedlaethol ac AALl.
- Dylid sôn am Gynlluniau Strategol Addysg yn y papur, mewn cyfeiriad at sut y gellid defnyddio systemau presennol yn fwy effeithiol.
- Gellid dirnad y cyfeiriad ar wahân at y Gymraeg fel iaith gyntaf ac ail iaith fel un anghyson oherwydd y pwyslais ar y continwwm ieithyddol.
- Ar sail tystiolaeth disgyblion i'r Pwyllgor, yr oedd cefnogaeth amlwg gan ddisgyblion yn y sector cyfrwng Saesneg i ehangu cyfleoedd cyfrwng Cymraeg/dwyieithog. Teimlwyd na ddylid labelu pynciau i'w targedu ond y dylai ysgolion ymateb i anghenion eu cymunedau lleol.
- Yr oedd yr argymhelliad cyntaf o dan y pennawd Anghenion Addysgol Arbennig (AAA) yn briodol mewn cyd-destun ehangach, h.y., nid yn unig o fewn y cyd-destun AAA ond hefyd ar gyfer materion allgyrsiol a dysgu y tu allan i oriau.

- Teimlwyd y dylai'r argymhelliad ar gyfer y rhaglenni trwytho peilot nodi mai arbrofol oedd y rhaglenni hyn.

- Teimlai aelodau, o dan y pennawd Blynyddoedd Cynnar, y dylid crybwys Mudiad Ysgolion Meithrin (MYM) a Chymdeithas Grwpiau Chwarae Cyn Ysgol (PPA)

- Cafwyd peth trafodaeth am gwrdd â'r galw am ddarpariaeth addysg cyfrwng Cymraeg. Yr oedd y peirianwaith i gyflenwi'r galw eisoes yn ei le: yr oedd Cynlluniau Iaith Gymraeg gan AALl yn statudol ofynnol gan Fwrdd yr Iaith. Teimlwyd y dylid cryfhau'r peirianwaith hwn i sicrhau adnoddau digonol a darpariaeth gyfartal.

- Dywedodd y Clerc y byddai'r holl dystiolaeth ysgrifenedig o'r adolygiad yn cael ei chrynhoi, ei thablu a'i dosbarthu i aelodau. ***(Gweithredu – Clerc)***

- Gofynnodd aelodau am eglurhad ynghylch y broses adroddiadau. Cadarnhawyd y Clerc y byddai cyfraniad y Pwyllgor Addysg a Dysgu Gydol Oes yn ffurfio rhan o adroddiad y Pwyllgor Diwylliant ar yr Iaith Gymraeg, gan gynhyrchu adroddiad ar y cyd.

- Dywedodd y Cadeirydd y byddai papur diwygiedig, a fyddai'n ymgorffori sylwadau'r aelodau, yn cael ei gyflwyno i'r Pwyllgor yn ei gyfarfod ar 12 Mehefin am sylw pellach. Gwahoddodd y Cadeirydd yr

aelodau i ymgynghori gyda'r Clerc a'r Ymgynghorydd Arbenigol cyn y cyfarfod ar 12 Mehefin.

**Eitem Pedwar: Cofnodion cyfarfodydd 2 Mai a 8 Mai**

***Papurau: ADGO 08-02(cofnodion) a ADGO 09-02(cofnodion)***

4.1 Cytunodd y Cadeirydd bod cofnodion y ddau gyfarfod yn gofnod cywir.

**Ysgrifenyddiaeth y Pwyllgor Mai 2002**

**Anecs A**

**Cyngor Cenedlaethol – ELWa**

Gwnaed y datganiad canlynol gan y Gweinidog dros Addysg a Dysgu Gydol Oes, Jane Davidson, i'r Pwyllgor Addysg a Dysgu Gydol Oes heddiw, dydd Mercher 22 Mai 2002.

Mae'r Cyngor Cenedlaethol – ELWa wedi tynnu sylw Llywodraeth Cynulliad Cymru at nifer o faterion trefniadol ynghylch sut mae nifer o faterion caffael yn ymwneud â chontractau i brynu cymorth ymgynghorol wedi eu trin yn fewnol. Penodwyd archwilwyr annibynnol gan y Cyngor ym mis Ebrill i ystyried y materion hyn ac maent wedi cwblhau adroddiad rhagarweiniol. Mae'r Cyngor wedi penderfynu cynnal ymchwiliad pellach i'r cefndir. Yng ngoleuni'r gwaith hwnnw, bydd yn ystyried pa gamau os o gwbl y bydd angen eu cymryd. Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn cael ei diweddaru'n gyson ar bob datblygiad.

Mae'r Ysgrifennydd Parhaol, Jon Shortridge, wedi gofyn i Adam Peat, Pennaeth Gr•p Llywodraeth Leol, Tai a Diwylliant y Cynulliad, i edrych ar frys ar drefniadau caffael a systemau rheolaeth ariannol ELWa ac i adrodd yn ôl iddo cyn gynted â phosibl.

Ni fyddai'n briodol i mi wneud sylw ar y canfyddiadau cychwynnol a gyflwynwyd i'r Cyngor. Byddai gwneud hyn yn rhagfarnu proses ymchwilio deg a thrylwyr. Bydd Datganiad yn cael ei wneud ar yr adeg briodol.

Gallaf sicrhau'r Pwyllgor bod y Cyngor yn bwriadu parhau i gynnal y gwasanaeth o safon a hynod bwysig a ddarperir gan ELWa.

**(22 Mai, 2002)**